Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

SWYDDOGOL
Gweithredol

# Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

# ADRODDIAD CYDYMFFURFIO 2021

01/04/2020 – 31/03/2021

Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol SCHTh
Ebrill 2021

SWYDDOGOL
Gweithredol

## Cyflwyniad

Lluniwyd y papur hwn i roi trosolwg cryno o gydymffurfiaeth o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu dros y cyfnod rhwng Mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021.

## Cynnwys


1. Gofynion Cyhoeddi

2. Y Gymraeg

3. Rheoli Gwybodaeth

3a. Deddfwriaeth Newydd

4. Rheoli Cofnodion

5. Rhyddid Gwybodaeth

6. Cais Mynediad at Ddata gan y Testun

7. Risg

8. Parhad Busnes

9. Gorchymyn Protocol Plismona 2011

10. Hyfforddiant

11. Adnoddau Dynol

12. Gwaith Polisi

13. Ystadau

## 1. Gofynion Cyhoeddi

Mae'n ofynnol i'r SCHTh gyhoeddi llu o wybodaeth ar wahanol adegau drwy gydol y flwyddyn er mwyn bod yn dryloyw, darparu gwybodaeth i drigolion a chydymffurfio â deddfwriaeth. Rhaid i bob SCHTh gadw at y gofynion fel y'u nodir yng Ngorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011. Mae'r Gorchymyn yn sicrhau y bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'n sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ynghylch:

- Pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud
- Faint maen nhw'n ei wario a sut maen nhw'n ei wario
- Beth yw eu blaenoriaethau a pha fath o gynnydd maen nhw'n ei wneud
- Sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau
- Pa bolisïau a gweithdrefnau sy'n rheoli gwaith swyddfa'r CHTh
- Rhestrau a chofrestrau

Bob blwyddyn mae CoPaCC (Cymharu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu - arbenigwyr ar brosesau Llywodraethu'r Heddlu) yn asesu sut mae swyddfeydd comisiynwyr yr heddlu a throseddu (SCHTh) yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol o ran tryloywder. Dyfernir "Marc Ansawdd Agored a Thryloyw" CoPaCC i'r SCHThau hynny y bernir eu bod yn cyrraedd safon foddhaol bob blwyddyn.

Ym mis Chwefror 2021 hysbyswyd y swyddfa ei bod wedi llwyddo i gyflawni Marc Ansawdd "Tryloywder SCHTh" CoPaCC ynghyd â 39 o SCHThau eraill am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae hyn yn gynnydd o'r 27 SCHTh a gafodd y marc y llynedd sy'n dangos gwelliannau rhagorol o ran tryloywder gwybodaeth a ddarperir drwy wefannau SCHTh.

Mae'r asesiad yn defnyddio cyhoeddiad y Swyddfa Gartref o 2013, 'Guidelines for PCCs on publishing information', yn seiliedig ar Orchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011, fel sail ar gyfer sgorio pob gofyniad datgelu – h.y. bod y wybodaeth yn bodoli ac yn amserol. Mae'r Swyddfa Gartref yn datgan:

"Mae angen gwybodaeth annibynnol, gyson a chlir ar y cyhoedd am berfformiad a gweithgareddau eu CHTh. Mae tryloywder yn hanfodol er mwyn hybu hyder yn y CHTh etholedig. Bydd isafswm gofynnol cyson o dystiolaeth hefyd yn caniatáu i'r cyhoedd gymharu perfformiad eu CHTh nhw â CHThau mewn ardaloedd eraill."

Er mwyn sicrhau bod y SCHTh yn cynnal ei sefyllfa o ran cyhoeddi, cynhelir gwiriadau rheolaidd ar y wefan gan y Swyddog Cymorth Cydymffurfio a Pherfformiad i sicrhau bod popeth yn gyfredol a'i fod bob amser yn adlewyrchu gwaith presennol y swyddfa.

Sgoriwyd deunaw SCHTh, a berfformiodd yn dda iawn ac a ganmolir yn fawr. Bydd y Swyddog Cymorth Cydymffurfio a Pherfformiad yn adolygu'r gwefannau hyn yn ystod y misoedd nesaf i ganfod beth y gallwn ei ddysgu o'r rhain ac os oes gwelliannau y gallwn eu gwneud i'n symud i'r lefel nesaf.

Un o argymhellion Cam Un adolygiad y Llywodraeth o'r CHThau oedd i'r Swyddfa Gartref ddiwygio'r Gorchymyn Gwybodaeth Benodedig er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd.

I'r perwyl hwnnw, ar 6 Mai gosodwyd Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2021 gerbron y Senedd. Daw'r newidiadau i rym o **31 Mai 2021** a byddant yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff plismona lleol etholedig gyhoeddi’r canlynol ar eu gwefannau:

- Datganiad ar sut mae eu heddlu'n perfformio mewn perthynas â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol ar gyfer plismona (Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd yr Heddlu)
- Copïau o adroddiadau arolygu PEEL AHGTAEM, ac asesiad cryno o berfformiad yr heddlu
- Copïau o ddata Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ar gwynion am yr Heddlu, a datganiad ar sut mae'r CHTh (neu Swyddfa'r Maer) yn arfer ei swyddogaethau ymdrin â chwynion o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.

Mae'r newidiadau hyn wedi'u cyfleu i dîm SCHTh a byddant yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mai a'u hychwanegu at y rhestr o ofynion.

## 2. Y Gymraeg

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 i rym ar 22 Mawrth 2016. Mae'r prif ddyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gymraeg beidio â chael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a dylent ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd o ddydd i ddydd.

SWYDDOGOL
Gweithredol

Yn ôl y sefyllfa ym mis Ebrill 2019, gofyniad mynediad y Gymraeg ar gyfer yr holl staff a swyddogion yw gallu sgwrsio i safon lefel 1.
Bydd staff a swyddogion presennol nad oes ganddynt allu yn y Gymraeg yn cael eu cefnogi i gyrraedd Cymraeg Lefel 1.

Sgiliau Iaith Gymraeg

| | |
|---|---|
| Lefel 0 | Dim Gallu |
| Lefel 1 | Gallu Cyfarch |
| Lefel 2 | Gwybodaeth Sylfaenol |
| Lefel 3 | Gallu Sgwrsio |
| Lefel 4 | Ffurfiol/Gallu Sgwrsio |
| Lefel 5 | Llawn a Chywir |

Nifer aelodau staff y SCHTh sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:






- Mae gan y SCHTh lefel dda iawn o sgiliau o ran gallu yn y Gymraeg ymhlith ei staff. Mae manylion llawn y lefelau o fewn yr Heddlu (at ddibenion cymharu) i'w gweld yn yr adroddiad amgaeedig.



Welsh Language Statistics April 2021.

- Yr unig safon nad yw'n cydymffurfio ar gyfer y SCHTh yw nad yw’r sain yn y lifft yn Gymraeg. Mae Tîm Gweithredol SCHTh wedi gwneud y penderfyniad i beidio â mynd i'r afael â hyn ar unwaith, oherwydd goblygiadau o ran cost. Yn y Grŵp Ystadau Strategol ar 9 Mawrth 2020 cytunwyd ar y penderfyniad hwn a nodwyd: 'Dylid cadw at Gydymffurfiaeth o ran y Gymraeg mewn perthynas â chyhoeddiadau mewn lifftiau dim ond wrth adnewyddu lifft sy’n bodoli eisoes neu osod lifft newydd.’

- Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dorri gofynion o ran y Gymraeg gan y SCHTh yn y flwyddyn ariannol hon ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth y swyddfa â'r safonau.

- Hyfforddiant – Cynigiwyd cyfle i holl staff y SCHTh fynychu gwersi Cymraeg yn y gorffennol, ond nid yw'r rhain wedi bod ar gael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd pandemig parhaus y coronafeirws. Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio bydd cyrsiau'n cael eu hailgyflwyno.

- Roedd pandemig y Coronafeirws a Rheoliadau dilynol Llywodraeth Cymru yn golygu na allai gweithgarwch ymgysylltu ddigwydd wyneb yn wyneb mwyach. Arweiniodd hyn at gynnal nifer o gyfarfodydd drwy lwyfannau digidol.
  Mae safonau'r Gymraeg yn datgan 'Os ydych wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod yr holl bobl a wahoddwyd wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).’
  Er mwyn hwyluso a bodloni’r safon hon, sicrhaodd y SCHTh y defnydd o blatfform Zoom i gynnal pob cyfarfod cyhoeddus lle bo modd i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Nid yw Skype na Microsoft Teams yn

cynnig y cyfleuster ar gyfer cyfieithu ar y pryd. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn ymwybodol o hyn ac wedi cyhoeddi canllaw i gynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog. Nid yw hyn yn cynnig unrhyw atebion hawdd ac mae'n cyfeirio at wahanol dechnolegau y gellid eu defnyddio, y mae gan bob un ohonynt gostau ynghlwm wrthynt. Fodd bynnag, mae bwriad i geisio datblygu rhywbeth o fewn Microsoft Teams, ond nid yw hyn o fewn golwg o bell ffordd. Bydd y Rheolwr Cydymffurfio a Pherfformiad yn parhau i fonitro hyn er mwyn sicrhau bod y SCHTh yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.

- Mae'r Rheolwr Cydymffurfio a Pherfformiad yn mynychu cyfarfodydd Yr Iaith ar Waith chwarterol yr Heddlu sy'n rhoi cyfle i'r swyddfa ddeall y materion presennol y mae'r heddlu'n eu hwynebu o ran y Gymraeg.

## 3. Rheoli Gwybodaeth

Rheoli Gwybodaeth yw'r broses o gasglu, storio, rheoli a chynnal gwybodaeth o bob math. Rhaid i'r SCHTh gadw at y gofynion cyfreithiol a nodir yn y Ddeddf Diogelu Data (2018) a Rheoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

- Cymerodd y SCHTh ran mewn archwiliad gwirfoddol a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ym mis Ionawr 2020. Cyhoeddodd yr ICO adroddiad generig yn rhoi trosolwg o'r prosiect ym mis Medi 2020.
  O ganlyniad i'r adroddiad generig, gofynnodd Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Heddlu a Throseddu (APAC²E) i weithgor dros dro gael ei ffurfio o'r 14 SCHTh a gymerodd ran yn arolwg yr ICO. Nod y grŵp hwn oedd darparu rhai safbwyntiau a sylwadau i APAC²E ac i weld a oes angen gwaith pellach gan APAC²E.
  Cytunodd Prif Swyddog Staff a Monitro SCHTh Dyfed-Powys i gadeirio'r grŵp ac fe'i cefnogir gan y Rheolwr Cydymffurfio a Pherfformiad.
  Cododd cyfarfodydd cynnar sawl pwynt, gyda chytundeb yn cael ei wneud i ddatblygu pecyn cymorth cenedlaethol a thempledi ar y cyd ar ran APAC²E i SCHThau eu mabwysiadu os dymunant. Mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo.

- Mae'n ofynnol cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) ar bob prosiect neu fenter newydd lle mae gofyn prosesu data personol. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd asesiadau o'r fath ar
  - Ddiwygiadau Uniondeb yr Heddlu
  - ICOP
  - Tractivity
  - Ffurflen Ymgysylltu â Dioddefwyr

  Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar y rhain o'r blaen ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i'w cwblhau pan fo angen.

- Ynghyd â DPIAs, mae'n hanfodol cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar unrhyw Bolisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd y mae'r SCHTh yn ymgymryd â nhw er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud pob ymdrech i ddileu gwahaniaethu, a hyrwyddo cydraddoldeb yn ein meysydd busnes. Mae'r asesiad yn broses a ddylai ddechrau ar y cam cynharaf wrth gyflwyno Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd – ni ddylai fod yn ôl-ystyriaeth yn dilyn penderfyniad. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) ar gyfer cynnig praesept y dreth gyngor, ond mae cwblhau EIA yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach o hyd.

- Cofnodwyd 8 achos posibl o dorri rheolau diogelu data o fewn y SCHTh eleni:
  - Roedd 3 yn ymwneud ag Adran Safonau Proffesiynol (PSD) yr Heddlu a gynhwysodd ddata nad oedd yn ymwneud â'r gŵyn a oedd yn cael ei hadolygu wrth anfon gwybodaeth i'r SCHTh mewn perthynas ag adolygiadau. Ymchwiliwyd yn drylwyr i hyn ac mae PSD wedi rhoi mesurau ar waith.
  - Roedd 2 yn achosion lle anfonwyd negeseuon e-bost i'r cyfeiriad e-bost anghywir.
  - Roedd 2 yn negeseuon e-bost a anfonwyd gan CBRE a oedd yn cyfeirio at fetio ond a oedd yn cynnwys enwau pobl nad oeddent yn gweithio i'r cwmni.
  - Roedd 1 yn gamgymeriad gan yr ystafell bost lle cafodd post ei gyfeirio'n anghywir at yr Heddlu yn hytrach na'r SCHTh.

  Ym mhob amgylchiad, cofnodwyd yr achosion o dorri gofynion ar unwaith a chymerwyd y camau priodol. Hysbyswyd Swyddog Diogelu Data (DPO) SCHTh a lle bu angen, gofynnwyd am gyngor gan yr ICO. Ni ystyriwyd

bod yr un o'r achosion uchod yn achosion y dylid adrodd amdanynt o dan GDPR y DU.

## 3a. Deddfwriaeth Newydd

Yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE), peidiodd rhai cyfreithiau diogelu data â bod mewn grym neu fod yn rhai y gellir eu gorfodi, megis y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Daeth y GDPR yn ofyniad cyfreithiol ar 25 Mai 2018, a chefnogodd fframwaith cyfreithiol wedi'i gysoni ledled Ewrop yn rheoleiddio'r ffordd y caiff data personol ei gasglu, ei ddefnyddio a'i rannu. Fodd bynnag, gan fod y DU wedi ymrwymo i gynnal cyfundrefn diogelu data gyfatebol, bydd fersiwn y DU o'r GDPR yn gymwys o'r dyddiad hwnnw. Bydd y GDPR hwn yn y DU yn mabwysiadu llawer o ddeddfwriaeth GDPR bresennol yr UE, ond bydd yn gymwys fel cyfraith annibynnol, y tu allan i'r gyfundrefn gyson yr ydym wedi dod i arfer â hi o dan y GDPR.

Mae *Deddf Diogelu Data 2018* yn parhau i fod ar waith, i bob pwrpas yn eilradd i GDPR y DU. Fe'i diwygir hefyd gan y Rheoliadau Ymadael â’r UE.

Y cyngor gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) oedd:

'Er nad yw darpariaethau 'GPDR y DU' wedi'u cyhoeddi eto, rydym yn cynghori sefydliadau i ddiwygio eu polisïau preifatrwydd a'u dogfennau perthnasol i adlewyrchu hyn.  Er nad oes cyfnod pontio ar gyfer gwneud y diwygiadau hyn, byddem yn argymell eich bod yn gwneud y newidiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Bydd DPA 18 yn parhau i fod yn gymwys a bydd yn eistedd ochr yn ochr â GDPR y DU.

- O ganlyniad i'r newidiadau hyn, cynhaliodd y Rheolwr Cydymffurfio a Pherfformiad adolygiad llawn o’r holl ddogfennau, polisïau ac ati yn perthyn i’r SCHTh i ganfod pa ddiwygiadau yr oedd angen eu gwneud i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd. Mae'r holl fersiynau diwygiedig wedi'u huwchlwytho i wefan SCHTh a'u cyfleu i'r holl staff.

  O ran ein holl gontractau, ar hyn o bryd nid oes angen i ni wneud unrhyw ddiwygiadau gan fod contractau’n cynnwys adran sy'n ein diogelu lle ceir newid o'r fath:

'(c) unrhyw gyfreithiau neu reoliadau sy'n cadarnhau, gweithredu, mabwysiadu, ategu neu ddisodli GDPR; ym mhob achos, i'r graddau y maent mewn grym, ac yn hyn o beth yn cael eu diweddaru, eu diwygio neu eu disodli o bryd i'w gilydd.'
Nid oes unrhyw newidiadau gwirioneddol i'r ddeddfwriaeth ei hun a fyddai'n effeithio ar y contractau, yr un newid sy'n berthnasol yw mai GDPR y DU ac nid GDPR y byddai angen i ni gyfeirio ato, ond caiff hyn ei nodi pan fydd yn bryd i'r contractau gael eu hadnewyddu.

Roedd Llywodraeth Cymru i fod i gychwyn y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yng Nghymru ar 29 Medi, fodd bynnag oherwydd COVID 19 gohiriwyd hyn tan 31 Mawrth 2021. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r ffactor mwyaf sy'n gyrru anghydraddoldeb yng Nghymru, sef tlodi.
Er na fyddai dyletswydd o'r fath yn berthnasol i'r Heddlu a'r SCHTh fel cyrff nad ydynt wedi'u datganoli, mae'n hanfodol, wrth sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus, ein bod hefyd yn cefnogi ymgyrch Llywodraeth Cymru i ddileu anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniadau strategol. Bydd yn ofynnol i lawer o'n partneriaid gydymffurfio yn yr un modd ag yn achos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn nodi: "Rhaid i awdurdod y mae'r adran hon yn gymwys iddo, wrth wneud penderfyniadau strategol eu natur ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i ddymunoldeb eu harfer mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol."

- Rhoddwyd sylw dyledus i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wrth nodi ein hamcanion o ran Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024.

- Cafodd y SCHTh a'r Heddlu drafodaeth gyda Rheolwr Gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol o Lywodraeth Cymru i drafod ymhellach ac i ddeall ein rôl yn llawn. O ganlyniad i'r drafodaeth hon, a chyda chymeradwyaeth gan uwch dimau, mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) wedi'u diwygio fel bod y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn rhoi sylw dyledus ym mhopeth a wnawn, fodd bynnag, uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am y cyfrifoldeb hwn yn y pen draw wrth wneud penderfyniadau pwysig.

## 4. Rheoli Cofnodion

Mae'r SCHTh wedi ymrwymo i weithredu mewn modd agored a thryloyw. Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rhaid i'r SCHTh sicrhau bod ei gofnodion yn bodloni'r safonau angenrheidiol i ddelio'n effeithiol â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Caiff polisi cadw a gwaredu'r SCHTh ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofyniad.

Mae tagio yn Sharepoint yn ddarn parhaus o waith dan arweiniad y Swyddog Cymorth Cydymffurfio a Pherfformiad.

Bydd archwiliadau ac arolygiadau i ddiogelu ein gwybodaeth ar bapur ac yn electronig yn cael eu cyflwyno yn ystod y misoedd nesaf gan y Swyddog Cymorth Cydymffurfio a Pherfformiad ar y cyd â bod yn arweinydd SCHTh ar Ymchwil a Datblygu.

Mae'r Rheolwr Cydymffurfio a Pherfformiad yn mynychu cyfarfodydd chwarterol Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth (IAB) yr Heddlu sy'n rhoi cyfle i'r swyddfa ddeall y materion cyfredol y mae'r Heddlu'n eu hwynebu o ran rheoli cofnodion.

## 5. Rhyddid Gwybodaeth

Fel corfforaeth undyn, mae'r SCHTh yn ddarostyngedig i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i bawb ofyn am unrhyw wybodaeth gofnodedig a gedwir gan awdurdod cyhoeddus. Nid yw’r hawl ond yn cynnwys gwybodaeth gofnodedig sy'n cynnwys gwybodaeth a gedwir ar gyfrifiaduron, mewn negeseuon e-bost ac mewn dogfennau printiedig neu ysgrifenedig yn ogystal â delweddau, recordiadau fideo a sain. Rhaid i'r SCHTh ymateb i bob cais o'r fath o fewn 20 diwrnod gwaith.

- Derbyniwyd 44 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ym mlwyddyn ariannol 2020/21, cynnydd o 16 o'r flwyddyn flaenorol.

  Dim ond 15 o'r rhain oedd yn geisiadau lle'r oedd gan yr SCHTh y wybodaeth y gofynnwyd amdani, gyda 5 arall yn cael eu cyfeirio at wefan

SCHTh lle roedd y wybodaeth eisoes wedi’i chyhoeddi. Anfonwyd 24 i'r Heddlu gyda chaniatâd y ceisydd gan y gallai’r wybodaeth fod ganddyn nhw.

- Ymatebwyd i bob cais a wnaed i'r SCHTh o fewn yr amserlen reoleiddiol.

- Mae gan yr SCHTh fynediad at geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr Heddlu er mwyn deall themâu'r ceisiadau sy'n cael eu gwneud. Mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau a gyflwynir i'r Heddlu ar gyfer ystadegau arestio ac ymholiadau cyffredinol ynghylch troseddau. Derbyniodd yr Heddlu 868 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod 2020-21.

- Yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn, roedd diffyg staff gan adran Rhyddid Gwybodaeth yr Heddlu ac nid oedd yn cydymffurfio â'r amserlen reoleiddiol o 20 diwrnod i ymateb i geisiadau. Ar ddechrau mis Ebrill 2020 roedd 34 o geisiadau heb eu hateb ac y tu allan i’r amser ymateb o 20 diwrnod. Ymdriniwyd â’r broblem hon ac fe’i datryswyd, gyda 0 cais y tu allan i’r amserlen i ymateb ar hyn o bryd, a dyma’r sefyllfa ers misoedd lawer. Yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2020, darparodd Rheolwr Cydymffurfio a Pherfformiad SCHTh a Rheolwr Ansawdd y Gwasanaeth rywfaint o gymorth i adran Rhyddid Gwybodaeth yr Heddlu i leihau'r ôl-groniad hwn.

## 6. Mynediad at Ddata gan y Testun

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth hefyd yn rhoi'r hawl i bawb ofyn i sefydliad a ydynt yn defnyddio neu'n storio eu gwybodaeth bersonol ai peidio. Gall person hefyd ofyn am gopïau o'i wybodaeth bersonol, ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Gelwir hyn yn hawl mynediad ac fe'i gelwir yn gyffredin yn gais mynediad at ddata gan y testun, neu SAR. Yn ôl deddfwriaeth, rhaid i’r SCHTh ymateb i unrhyw geisiadau o'r fath o fewn mis.

Cyfrifoldeb yr SCHTh yn unig yw ymateb i geisiadau mynediad at ddata gan y testun.

- Derbyniwyd 9 SAR y flwyddyn ariannol hon; fodd bynnag, nid oedd gan y SCHTh wybodaeth am unrhyw un o'r testunau. Anfonwyd manylion atynt i gyd yn nodi sut i wneud eu cais i'r Heddlu os mai dyma'r hyn yr oeddent

am ei wneud. Roedd thema debyg yn perthyn i’r ceisiadau i gyd, gyda phobl yn gofyn am fanylion am rybuddion yr oeddent wedi'u derbyn, cofnodion o ddigwyddiadau ac ati.

- Mynychodd y Rheolwr Cydymffurfio a Pherfformiad a'r Swyddog Cymorth hyfforddiant rhithwir ar e-ddatgelu a golygu ym mis Chwefror 2021 a ddarparwyd gan Gwmni TGCh yr Heddlu a hyfforddiant Hawliau Testunau Diogelu Data a ddarparwyd gan yr NPCC ym mis Mawrth 2021.

- Ym mis Ionawr 2021 cyfarfu'r arweinwyr Cydymffurfio o'r pedwar SCHTh yng Nghymru a chytunwyd i gael ffurflen polisi, gweithdrefn a chais SAR ar y cyd i sicrhau cysondeb. Mae'r gwaith hwn wedi'i ddatblygu a'i gwblhau a chaiff ei gyhoeddi o fewn y mis nesaf ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan dimau gweithredol perthnasol SCHTh.

## 7. Risg

Ym mis Mawrth 2021, cynigiwyd adolygu Cofrestr Risg SCHTh a rhoi ystyriaeth i symud i Gofrestr Risg Gorfforaethol SCHTh.

Teimlwyd bod angen i Gofrestr Risg SCHTh gynnwys risgiau lefel uwch sy'n mynnu goruchwyliaeth strategol fanylach gan y Rheolwr Cydymffurfio a Pherfformiad a'r Tîm Gweithredol.

Er mwyn sicrhau nad ydym yn bwrw ymlaen â risgiau heb yr hyder y byddant yn dal i gael eu hadolygu ar lefel benodol, serch hyn drwy arweinwyr meysydd busnes, penderfynwyd cyflwyno cofrestr risg ddeinamig a fydd yn gofrestr lefel swyddfa sy'n cynnwys yr holl risgiau a nodir gan arweinwyr meysydd busnes unigol sef y risgiau ar yr adeg benodol honno sy'n effeithio ar y sefydliad.

Bydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cynnwys risgiau y mae angen eu rheoli'n arbenigol ar lefel uwch neu ddull rheoli amladrannol. Mae'r rhain yn risgiau a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y gallu i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gyflawni Blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throseddu ac yn effeithio ar y SCHTh yn ei chyfanrwydd. Maent yn risgiau lefel uchel iawn yr ystyrir ei bod yn amhosibl neu'n anymarferol eu rheoli ar lefel arweinydd busnes.

- Mae'r tîm Gweithredol yn goruchwylio'r holl risgiau a geir yn y ddwy gofrestr ac mae'r Rheolwr Cydymffurfio a Pherfformiad yn darparu

adroddiad i dîm Gweithredol y SCHTh bob mis. Yn ogystal â hyn darperir adroddiad chwarterol i'r Cyd-bwyllgor Archwilio (JAC).

- Arweiniodd trafodaethau ynghylch rhannu risgiau gyda'r Heddlu at ffurfioli'r broses hon gyda Chynghorydd Rheoli Risg a Pharhad Busnes yr Heddlu yn llunio dogfen Canllawiau Rhannu Rheoli Risg.

- Derbyniodd yr holl aelodau staff ohebiaeth ar y broses newydd a roddwyd ar waith gyda chyfarwyddiadau clir ar sut i ddefnyddio'r cofrestrau, pam a phryd.

- Anfonir gohebiaeth yn rheolaidd at bob aelod o staff i roi gwybod iddynt am beryglon parhaus o ran diogelwch, yn enwedig yn yr amgylchedd 'gweithio gartref', mae enghreifftiau'n cynnwys e-bost twyllodrus y GIG, e-bost gwe-rwydo'r ICO, twyll Microsoft ac ati.

## 8. Parhad Busnes

Mae pecyn cymorth Rheoli Parhad Busnes (BCM) SCHTh ar waith i sicrhau bod staff yn gwybod beth i'w wneud pe bai sefyllfa'n codi lle terfir ar fusnesau ac na ellir cynnal arferion gwaith arferol. Mae'r pecyn cymorth yn amlinellu sut y byddai'r swyddfa'n ymateb yn effeithiol i adfer ei gweithgareddau a'i gwasanaethau.

Adolygir BCM SCHTh yn flynyddol a chaiff yr holl gynnwys ei wirio ar gyfer cywirdeb a gwybodaeth ddilys.

Cafodd adolygiad interim ychwanegol ei gynnal ym mis Ebrill 2020 o ganlyniad i bandemig y coronafeirws.

Fel rhan o COVID-19 roedd yn ofynnol casglu gwybodaeth bersonol ychwanegol gan staff na fyddai gofyn amdani yn ystod amgylchiadau arferol.

Derbyniwyd canllawiau cenedlaethol ar hyn yn rhoi gwybod i ni am y gofyniad i roi Hysbysiad Preifatrwydd i staff ar gyfer casglu'r data hwn. Cafodd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei ysgrifennu a'i ddosbarthu i'r holl staff.

Mae copïau o becyn cymorth BCM SCHTh ar gael yn Nerbynfa SCHTh, yn ACPO, gan Gynghorydd Rheoli Risg a Pharhad Busnes yr Heddlu ac ar Sharepoint.

## 9. Gorchymyn Protocol Plismona 2011 – Archwiliad Iechyd

Mae Adran 70 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (PRSRA) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy'n berthnasol i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae'r protocol hwn yn nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r berthynas o bedwar tu, sef Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl, Panel yr Heddlu a Throseddu a'r Ysgrifennydd Cartref.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, datblygodd SCHTh Dyfed-Powys archwiliad yn 2018 sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu bŵer cyfreithiol a dyletswydd drostynt.

- Mae'r archwiliad bellach yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn rhoi cyfle i arweinwyr busnes fyfyrio ar gofnodion blaenorol a newid arferion adrodd yn ôl y gofyn. Cyhoeddwyd Fersiwn 3 ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf hon ac mae trafodaethau eisoes wedi dechrau i baratoi fersiwn 4 gyda'r nod o sicrhau ei bod yn barod ym mis Mai/Mehefin.
- Mae pob maes busnes o fewn y SCHTh yn cyfrannu at yr archwiliad iechyd bob chwarter drwy gofnodi gwybodaeth reoli a chrynodebau o ba waith y maent wedi'i wneud er mwyn bodloni'r manylebau gofynnol.
- Cynhyrchir adroddiad o'r crynodebau hyn a gyflwynir i Banel yr Heddlu a Throseddu ac a gyhoeddir ar wefan SCHTh.
- Cynhyrchir crynodeb o'r archwiliad iechyd bob chwarter ar gyfer y Tîm Gweithredol sy'n manylu ar bob maes gyda sgôr RAG.

## 10. Hyfforddiant

Rhoddir cyfle i holl aelodau staff SCHTh fynd i sesiynau hyfforddi rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt yr offer a'r sgiliau i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r system arfarnu (DAP) yn caniatáu i reolwyr llinell fonitro hyfforddiant staff a thrafod unrhyw ofynion.

Cynhelir traciwr presenoldeb hyfforddiant gan y Swyddog Cymorth Cydymffurfio a Pherfformiad.

Yn ogystal â hyn, mae'n ofynnol i'r holl staff ymgymryd â modiwlau NCALT gorfodol (y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Technolegau Dysgu Cymhwysol) ar amrywiaeth o bynciau er mwyn sicrhau eu bod yn wybodus am bynciau sy'n effeithio arnynt, e.e. Iechyd a Diogelwch, Diogelu Data, Gweithio Ar Eich Pen eich Hun

- Ym mis Hydref 2020 gofynnwyd am eglurder gan Reolwr Gwasanaethau Dysgu a Datblygu'r Heddlu ar y gofyniad o ran adnewyddu modiwlau hyfforddi NCALT. Yn groes i ddealltwriaeth flaenorol, er ei bod yn orfodol i'r holl staff gwblhau'r modiwlau hyn, **nid oes** angen eu hadnewyddu ddwywaith y flwyddyn. Safbwynt yr Heddlu ar hyn yw, unwaith y bydd modiwl wedi'i gwblhau, nad oes angen mynd drwyddo eto. Cytunodd Tîm Gweithredol SCHTh ein bod yn dilyn safbwynt yr Heddlu ar hyn.
- Gofynnwyd i bob rheolwr llinell ganfod beth yw lefelau cwblhau modiwlau NCALT fel rhan o'u trafodaethau DAP gyda staff. Mae matrics hyfforddiant ar waith sy'n rhestru'r rhain i gynorthwyo gyda'r broses hon.
- Ar hyn o bryd mae lefelau cydymffurfio staff yn dda iawn:
    - Mae 71% (25/35) yn cydymffurfio 100%
    - Mae 9% (3/35) yn cydymffurfio 86% – 1 modiwl i'w gwblhau
    - Mae 6% (2/35) yn cydymffurfio 79% – 2 fodiwl i'w cwblhau
    - Mae 3% (1/35) yn cydymffurfio 77% – 6 modiwl i'w cwblhau
    - Mae'r 11% arall (4 aelod o staff) ymhell ar ei hôl hi gyda lefelau cydymffurfio yn amrywio o 4% i 45%.

- Mae adegau pan fydd yr Heddlu'n gofyn i fodiwl NCALT penodol gael ei gwblhau gan yr holl staff, mae'r Rheolwr Cydymffurfio a Pherfformiad yn cyfleu hyn i'r holl staff ac yn ei roi ar y matrics hyfforddiant. Mae ceisiadau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi cynnwys cadw'n ddiogel ar-lein a Rheoli Gwybodaeth.

## 11. Adnoddau Dynol

Darperir adroddiad data absenoldeb i'r Tîm Gweithredol bob chwarter i sicrhau eu bod yn cael gwybod am unrhyw faterion absenoldeb sy'n codi, unrhyw batrymau, oriau cyfartalog a gollwyd, lefelau canran ac ati.

## 12. Gwaith Polisi

Mae pob arweinydd Busnes yn y SCHTh yn gyfrifol am rai meysydd polisi. Mae hyn yn golygu cysylltu ag arweinwyr yr Heddlu pan fo angen i ddrafftio ymatebion i lythyrau, ymgynghoriadau priodol ac ati. Hefyd, nodi unrhyw gyfathrebiadau gan y PLU, APCC ac ati a mynd i'r afael â nhw'n briodol.
Mae'r swyddogaeth Cydymffurfio a Pherfformiad yn arwain ar:

- Seiberdroseddu
- Diogelu Data
- Twyll
- Cydymffurfiaeth Gwybodaeth
- Rhannu Gwybodaeth
- Y Gymraeg
- Gweithlu

Cyflwynwyd dau ymateb i AHEM yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Mawrth 2021 – Arolygiad ar effeithiolrwydd yr unedau troseddu trefnedig rhanbarthol
- Ionawr 2021 – Cwyn uwch – rhannu data'r heddlu at ddibenion mewnfudo

Cyflwynwyd briff i'r Comisiynydd ar y ffigurau diweddaraf o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) ym mis Chwefror 2021.

Medi 2020 – Briff i'r CHTh ar fynd i'r afael â'r bygythiad ar-lein 24/7 i gadw pobl ifanc yn ddiogel rhag peryglon cudd seiberdroseddu. Cofnododd CHTh gyflwyniad ar y pwnc ar gyfer Embrace.

Cyflwynwyd papur i dîm Gweithredol SCHTh ar arbedion Milltiroedd oherwydd y drefn gweithio gartref ym mis Awst 2020.

Ym mis Ebrill a Mai 2020 darparwyd ystadegau ar Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd, ffigurau dalfeydd a lefelau salwch yr Heddlu i'r CHTh i'w hysbysu o effaith COVID-19.

Cynhyrchwyd Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd a dogfen ganllaw ar y cyd â'r Ditectif Arolygydd Sharon Griffiths o PSD.

## 13. Ystadau

Mae Cydymffurfio a Pherfformiad yn cyfrannu at rai gweithgareddau Ystadau:

- Cyflwyno cyfres sleidiau ar berfformiad Ystadau yn fisol. Mae Rheolwyr Cydymffurfio a Pherfformiad yn arwain ar hyn ac yn coladu cofnodion. Swyddogaeth gydymffurfio yn cwblhau cofnodion ar Adnoddau Dynol, Risg, CBRE, Llety, Arlwyo, Cyfleustodau, Meincnodi, Damweiniau a Damweiniau Fu Bron â Digwydd, Canmoliaeth a Phryderon.
- Meincnodi – Cwblhaodd y Swyddog Cymorth Cydymffurfio a Pherfformiad y ffurflen flynyddol fis Gorffennaf diwethaf a bydd yn parhau i arwain ar y gweithgaredd hwn.
- Cynaliadwyedd – Mae Cydymffurfio a Pherfformiad yn mynychu ac yn trefnu holl gyfarfodydd yr is-grŵp cynaliadwyedd gan gynnwys cynnal y traciwr camau gweithredu ac wedi adolygu a diwygio'r cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp yn ddiweddar.
- Cwblhawyd adolygiadau iechyd a diogelwch SCHTh ym mis Ebrill a mis Hydref ac ni chodwyd unrhyw faterion penodol.